COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD AR LEIN (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 6ED HYDREF 2020 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, Bob Barton, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), J. Pearson, M. Tasker, M. Worth.

SWYDDOGION: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

YMWELWYR: Cynghorydd C. Hughes, Cynghorydd Tref /. Sir Aelod o'r Cyhoedd

93/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr G. Campbell a C. Matthews.

94/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

95/20 Cambrian Drive, Llandrillo yn Rhos (Cyhoedd yn Cymryd Rhan):

Cytunodd y Cadeirydd i ddod a'r eitem hon ymlaen ar yr agenda fel rhan o'r sesiwn i'r cyhoedd cymryd rhan.

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth Mr Walton parthed pryderon am gyflymdra traffig a'r 'llwybr dianc' ar Cambrian Drive. Cyflwynwyd ymateb gan y Swyddog Traffig CBS Conwy a anfonwyd ac a dderbyniwyd gan yr Aelodau yn gynharach yn y dydd.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, fe ganiateir i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda. Croesawyd Mr Walton i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe'i gwahoddwyd i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol at y rhai a gyflwynwyd i'r Aelodau eisoes. Diolchodd Mr Walton i'r Pwyllgor am ganiatáu iddo gael siarad, a dywedodd nad oedd wedi derbyn ymateb uniongyrchol oddi wrth GBS Conwy, a gofynnodd am gael copi o'r ymateb a anfonwyd at y Cyngor Tref. Dywedodd Mr Walton wrth y Pwyllgor bod Cambrian Drive yn ardal lle'r oedd y mwyafrif o'r boblogaeth yn hen / methedig. Roedd y trigolion yn poeni am eu diogelwch am fod rhai gyrwyr yn defnyddio'r ffordd fel 'trac rasio', yn arbennig yn y boreau a'r prynhawn / hwyrnos ar eu ffordd i'r Coleg ag o'r Coleg.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ymateb CBS Conwy, oedd wedi manylu ar y canllawiau tros ystyried creu parth cyflymdra o 20 m.y.a. Roedd y dystiolaeth angenrheidiol yn cynnwys ystadegau am ddamweiniau a gwybodaeth am gyflymdra presennol y traffig. Cyfeiriwyd at y defnydd gan drigolion mewn rhai pentrefi gwledig yn Sir Ddinbych o fesurwyr cyflymdra i helpu i ostwng cyflymdra traffig.

Hysbyswyd Mr Walton bod Swyddog Traffig o GBS Conwy wedi cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor Tref er mwyn trafod parthau cyflymdra 20 m.y.a. ac roedd croeso iddo fod yn bresennol.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn gofyn i GBS Conwy cynnal archwiliad cyflymdra er mwyn cael darlun mwy cywir am gyflymdra traffig yn Cambrian Drive.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Walton am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

96/20 <u>Cais Cynllunio (Cyhoedd yn Cymryd Rhan):</u>

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, defnyddiodd y Cynghorydd C. Hughes y sesiwn i'r cyhoedd cymryd rhan er mwyn iddo gael rhoi ei sylwadau ar Gais Cynllunio O/47703 oedd am gael ei ystyried yn ddiweddarach gan y Pwyllgor. Diolchodd Cynghorydd Hughes i'r Pwyllgor am ganiatáu iddo siarad, ac fe agorodd trwy ddweud byddai hwn yn gyfleustra rhagorol ac roedd yn cefnogi'r datblygiad mewn egwyddor. Fodd bynnag, roedd gan drigolion pryderon dwys am y lleoliad, yn arbennig mor agos i Barc Eirias / maes chwarae. Roedd y Cynghorydd Hughes wedi gofyn i GBS Conwy am wybodaeth am y defnydd tymor byr o'r ganolfan asesu ond nid oedd wedi cael ateb. Roedd o'r farn bod angen mwy o wybodaeth. Roedd wedi gofyn i GBS Conwy hefyd, os oeddynt wedi ystyried unrhyw leoliadau eraill, ond unwaith eto, ni dderbyniwyd ateb. Dywedodd Cynghorydd Hughes wrth yr Aelodau nad oedd unrhyw son yn y cais am Adran 23 o Ddeddf Trosedd ag Anrhefn (yn ymwneud a'r posibilrwydd o gynnydd mewn troseddau yng nghyffiniau'r safle, neu'r dybiaeth byddai cynnydd mewn troseddau). Cyfeiriodd Cynghorydd Hughes sylw'r Aelodau at 3 coeden fawr / llawn dwf oedd am gael eu dymchwel ac roedd o'r farn y dylid eu diogelu gyda Gorchymyn Diogelu Coed oherwydd y lleoliad mor agos i dir parc. Dywedodd Cynghorydd Hughes hefyd, bod angen gwirio ffiniau'r safle am ei bod yn ymddangos bod rhan o'r safle yn ymyrryd ar y tir parc cyfagos sydd wedi ei ddynodi i fod yn ardal adloniant. Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cynghorydd Hughes bod y trigolion wedi cyflwyno llythyrau o wrthwynebiad ond nid oedd y rhain wedi ymddangos, hyd yn hyn, ar y safle chwilio cynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hughes am ei sylwadau a gadawodd y cyfarfod.

97/20 <u>Cofnodion</u>:

a) ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed Medi 2020 yn adroddiad cywir.***

b) ***Penderfynwyd derbyn cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig a gynhaliwyd ar 10fed Medi 2020.***

98/20 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>

a) Cofnod 75/20: Ciosg BT, Ffordd Abergele:

Cyflwynodd y Clerc:

(i) Ymateb e-bost oddi wrth Haf Jones ynglŷn â chyflwr gwael y ciosg. Roedd wedi gofyn i BT a fyddant yn gwella cyflwr y ciosg cyn iddo gael

ei fabwysiadu ond nid oedd wedi derbyn ateb hyd yn hyn. Roedd Haf hefyd wedi cadarnhau y gellir symud y ciosg i leoliad arall ond rhybuddiodd byddai hyn yn broses cymhleth a ddrud, yn arbennig os oes angen cyflenwad ynni (ac fe fyddai os oedd i'w ddefnyddio efo diffibriliwr)

(ii) Oherwydd cyflwr y ciosg a'r difrod presennol, gofynnwyd am sylwadau'r Tîm Heddlu Cymdogaeth Leol os oedd y lleoliad yn addas ar gyfer diffibriliwr. Fe nodwyd nad oedd y Tîm yn cefnogi ciosg gyda diffibriliwr yn y lleoliad hwn am ei fod yn agos at fan lle mae ieuenctid lleol yn ymgasglu ac roedd posibilrwydd o ddifrod.

(iii) Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod wedi derbyn negeseuon e-bost oddi wrth Ysgrifennydd Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (CTHG) a fu mewn cysylltiad ag aelodau eraill o GTHG. Cadarnhaodd nad oedd CTHG yn cefnogi gosod diffibriliwr ychwanegol yn y ciosg yn y lleoliad presennol. Maent yn cefnogi'r defnydd o'r ciosg ond yn cydnabod gall y gost fod yn grocbris. Roeddynt o'r farn bod yna fwy o leoliadau cyfleus / gweledol, megis diffibriliwr ar wal tu allan i Garej y Co-op neu Eglwys Sure Hope (Interchange).

(iv) Fe nodwyd nad oedd gwybodaeth map cyflawn ar gael i ddangos holl leoliadau presennol diffibrilwyr yn ein hardal. Mae Gwefan NHS 111 i weld i fod efo'r wybodaeth fwyaf, ond mae hyd yn oed peth o hwn yn absennol. Dywedodd Cynghorydd Barton ei fod wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Hen Golwyn ag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru i fapio'r lleoliadau presennol ac i ddynodi mannau dewisol / bylchau.

Ceisiodd y Cynghorydd Barton cefnogaeth gan yr Aelodau i gadw'r opsiwn o ddefnyddio'r ciosg yn agored tra bo fwy o waith yn mynd ymlaen i fapio'r lleoliadau presennol ac i ddynodi unrhyw fylchau am ddiffibrilwyr ychwanegol yn Hen Golwyn.

Penderfynwyd parhau gyda'r 'datganiad o ddiddordeb' cychwynnol i fabwysiadu'r ciosg tra bo'r gwaith o gasglu gwybodaeth / mapio yn cael ei wneud, ar y ddealltwriaeth bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl os bydd yr astudiaeth yn cadarnhau nad yw'r lleoliad hwn yn cael ei gefnogi.

99/20 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a) Rheoliad Traffig Dros Dro (RhTDD):

(i) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, RhTDD o Gyffordd Ffordd Greenfield hyd at y Gyffordd efo Ffordd Nant y Glyn o 15/10 - 15/4/2022 ar gyfer arwyneb newydd

(ii) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, RhTDD o Gyffordd Ffordd Brooklands hyd at eiddo Rhif 24 o 19/10 – 19/4/2022 - arwyneb newydd

Penderfynwyd nodi'r Rheoliadau Traffig Dros Dro

b) Maes Parcio CBSC, Llandrillo yn Rhos:

Cyflwynodd y Clerc ebost gan Le Sport a hysbyswyd y Pwyllgor bod Cynghorydd Paul Richards wedi bod yng nghyfarfod Fforwm Ardal Leol Conwy (Cynghorwyr Sir / Swyddogion) am y mater hwn a bydd yn adrodd

yn ôl i'r Cyngor Tref ar 19/10/20. Derbyniwyd a nodwyd yr ohebiaeth gan yr Aelodau.

100/20 <u>Cynllunio</u>:

a) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b) ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 7/9/2020 hyd at 20/9/2020.***

c) Cwrs Hyfforddiant Cymorth Cynllunio, Cymru:

Rhoddodd y Cynghorydd Glenys Baker adroddiad ar lafar am y cwrs a fynychwyd ganddi a fu'n ymdrin â'r testunau canlynol: y broses cynllunio, ystyriaethau perthnasol ac ymarferiad da. Roedd o'r farn bod y cwrs wedi bod yn fuddiol.

ch) Cais Cynllunio O/46821 – Larkfield House:

Nodwyd y rhybudd o dynnu cais yn ôl gan yr Aelodau a bod y ddau eiddo wedi cael eu gwerthu'n ddiweddar.

d) Agenda Pwyllgor Cynllunio CBSC (7 Hydref):

Cyflwynodd y Clerc yr agenda a anfonwyd at yr Aelodau trwy ebost. Fe nodwyd bydd y Swyddog Cynllunio yn argymell caniatáu'r ddau gais a wrthwynebwyd gan y Cyngor Tref. Mynegwyd pryder nad oedd yr agenda wedi bod ar gael mewn digon o amser i Aelodau ofyn i gael bod yn bresennol / siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD ONLINE (VIA ZOOM) AT 6:30PM ON TUESDAY 6TH OCTOBER 2020.

PRESENT: Cllr C Brockley (Chair)
Cllrs: G Baker; Bob Barton; Mrs M Jones (Deputy Mayor); J Pearson; M Tasker; M Worth

OFFICERS: Mrs T Earley, Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

VISITORS: Cllr C Hughes, Town/County Councillor
Member of the Public

93/20 Welcome and Apologies for Absence:

The Chair welcomed members to the meeting. Apologies for absence were received from Cllrs G Campbell and C Matthews.

94/20 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

95/20 Cambrian Drive, Rhos on Sea (Public Participation):

The Chairman agreed to bring this item forward in the agenda, as part of the public participation session.

Clerk submitted an email from Mr Walton regarding concerns about traffic speed and 'rat run' on Cambrian Drive and tabled a response from the Traffic Officer, Conwy CBC, which had been received/emailed to members earlier in the day.

In accordance with Standing Orders, members of the public may be permitted to speak on any item on the agenda. The Chair welcomed Mr Walton to the meeting and invited him to make any additional comments to those already submitted to members. Mr Walton thanked the Committee for allowing him to speak and said he had not received the response directly from Conwy CBC and requested a copy of the response sent to the Town Council. Mr Walton informed the Committee that Cambrian Drive was an area where the population was mainly elderly/infirm and residents were concerned about their safety as some drivers were using the road as a 'racing track', particular in the morning and afternoon/evening on route to and from the college.

A discussion took place regarding the response from CCBC, which detailed the criteria that would need to be met for a 20mph zone to be considered. The evidence required includes accident statistics and information on the current speed of traffic. Reference was made to the use of speed guns by residents to help reduce traffic speeds is some rural villages in Denbighshire.

Mr Walton was informed that a CCBC Traffic Officer had been invited to attend the next full Council meeting to discuss 20 mph speed zones and he would be welcome to attend.

Resolved to recommend that the Council requests CBC undertake a speed study to get a more accurate picture of the traffic speeds on Cambrian Drive.

The Chair thanked Mr Walton for attending and he then retired from the meeting.

96/20 Planning Application (Public Participation):

In accordance with Standing Orders, Cllr C Hughes used this Public Participation session to comment on Planning Application 0/47703 which was to be considered by the Committee at this meeting. Cllr Hughes thanked the Committee for allowing him to speak and started by saying this would be an excellent facility and he supported the development in principle, however, residents had grave concerns about the location, particularly as it's so close to Eirias Park/play area. Cllr Hughes had requested information from CCBC about the use of the short term assessment centre, but was yet to receive a response. He felt more information was needed. He had also asked Conwy CBC if any other locations had been considered, but again had not had a response. Cllr Hughes informed the members that no mention had been made of S23 Crime and Disorder Act within the application (regarding the potential for an increase in crime in the vicinity of the site, or the perception of an increase in crime). He also drew the Committee's attention to 3 large/mature trees that were to be demolished and felt that the these be should be protected by TPOs, due to the parkland setting. Cllr Hughes also stated that the site boundaries need to be checked, as parts of the site appear to encroach onto the neighbouring parkland, which is a designated recreational area. In answer to a question, Cllr Hughes confirmed that residents had submitted objection letters but these had not yet appeared on the planning explorer site.

The Chair thanked Cllr Hughes for his comments and he retired from the meeting.

97/20 Minutes:

a) ***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 15th September 2020.***
b) ***Resolved to receive the minutes of a meeting of the Christmas Lights Sub-Committee held on 10th September 2020.***

98/20 Matters arising from the Minutes:

a) Min 75/20: BT Kiosk, Abergele Road:
The Clerk submitted:

(i) An email response from Haf Jones, regarding the poor condition of the kiosk. She had asked BT if they would improve the condition of the kiosk before adoption but had not yet received a reply. Haf had also confirmed that the kiosk could be moved to another location, but warned that is a complex and costly process, especially if power is required (which it would be if used for a defibrillator).

(ii) Due to the condition of the kiosk and existing damage, views had been requested from the local neighbourhood police team regarding whether it was a suitable location for a defibrillator. It was noted that the local PCSO does not support locating a defibrillator within the kiosk at this location, as it is a place where local youngsters gather and there is the potential for damage.

(iii) The Clerk informed members that she had also received e-mails from the Secretary of OCRA, who has been in contact with OCRA members. He confirmed that OCRA do not support locating an additional defibrillator in the kiosk at its present location. They are supportive of the kiosk being used, but recognise that the cost could be prohibitive, and believe there would be more convenient/visible locations; such as a wall-mounted defibrillator outside the Co-op Garage or Sure Hope Church (Interchange).

(iv) It was noted that there was no complete map data available to show all the current defibrillators in our area. NHS 111 Website seems to have the most information, but even some of that is missing. Cllr Barton said he had been working with Ysgol Hen Golwyn and Wales Ambulance Trust to map existing locations and to identify gaps/preferred locations.

Cllr Barton sought the support of members to keep the option of using the kiosk open, whilst further work takes place to map existing locations and identify the gap(s) for additional defibrillators in Old Colwyn.

It was resolved to proceed with the initial 'expression of interest' to adopt the kiosk, whilst the defibrillator mapping data/study is being undertaken, on the understanding that the application can be withdrawn if the study confirms that this location is not supported.

99/20 <u>Conwy CBC</u>:

a) Temporary Traffic Regulation:

(i) The Clerk submitted, for information, a TTR from Jnct Greenfield Road to Jnct Nant y Glyn Road from 15/10 - 15/04/2022 for carriageway resurfacing.

(ii) The Clerk submitted, for information, A TTR from Jnct Brooklands Road to property 24 from 19/10 - 19/04/2022 for carriageway resurfacing.

Resolved to note the TTRs.

b) Conwy CBC Carpark, Rhos on Sea:

The Clerk submitted an email from Le Sport and reported to the Committee

that Cllr Paul Richards had attended a meeting of the Conwy Local Area Forum (County Councillors/Officers) about this issue and would be reporting back to the Town Council on 19/10/20. Members received and noted the correspondence.

100/20 <u>Planning:</u>

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 07/09/2020 - 20/09/2020.***

c) Planning Aid Wales Training Course:
Cllr Glenys Baker gave a verbal report on the course she attended which had covered the topics: planning process, material considerations and best practise. She felt the course had been worthwhile.

d) Planning Application no 0/46821 - Larkfield House:
Members noted the withdrawal notice and also that both properties have recently been sold.

e) CCBC Planning Committee Agenda (7 Oct) :
The Clerk tabled the agenda, which had been emailed to members. It was noted that the Planning Officer was recommending approval of two applications which the Town Council had objected to. Concern was expressed that the agenda had not been made available in time for members to request to attend/speak at the Planning Committee meeting.

The meeting closed at 7.45pm.

……. Chairman